## Tasg 2

# Hysbyseb

Yn 2011, roedd cystadleuaeth arbennig iawn. Y wobr oedd gweithio fel blaswr hufen iâ am wythnos.

1. Darllenwch yr hysbyseb yma.

**CYSTADLEUAETH ARBENNIG**

**PROFIAD GWAITH FEL BLASWR HUFEN IÂ**

**Ydych chi'n 14-18 oed?**

**Ydych chi eisiau profiad gwaith diddorol?**

**Beth am ddod i weithio gyda ni fel blaswr hufen iâ am wythnos?**

**Os ydych chi'n hoffi hufen iâ ... os ydych chi'n hoffi arbrofi gyda bwyd ... byddwch chi wrth eich bodd.**



**Ysgrifennwch lythyr aton ni – tua 150-200 o eiriau. Rhaid i chi ddweud:**
- **pwy ydych chi**
- **pam rydych chi eisiau'r profiad gwaith.**

**Ysgrifennwch at: Hufen iâ Cymru, Blwch Post 45, Llanaber, XY23 3THY**

a. Beth fydd y person ifanc yn wneud yn y swydd?

Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau.

**Bydd y person ifanc yn ...**

b. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grŵp arall.

c. Ysgrifennwch lythyr at y cwmni yn dweud pwy ydych chi a pham rydych chi eisiau'r profiad gwaith.

Mae help ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| swydd | job |
| cystadleuaeth | competition |
| gwobr | prize |
| gwaith | work |
| profiad gwaith | work experience |
| byddwch chi wrth eich bodd | you'll be delighted |

| | |
|---|---|
| | Eich cyfeiriad chi |
| | Y dyddiad |
| | Cyfeiriad y cwmni |
| Annwyl ..., | |
| | Pwy<br>Oed<br>Byw<br>Ysgol<br>Diddordebau<br>Hoff fwyd a diod<br>Gwybodaeth arall? |
| | Pam rydych chi eisiau’r profiad gwaith. |
| Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, ffoniwch fi ar ... neu e-bostiwch ... | Gorffen y llythyr yn dda |
| Yn gywir, | Eich enw chi |